Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref AT 14802
Ein cyf/Our ref

28 Ionawr 2021

Annwyl

ATISN 14802 - Cais rhyddid gwybodaeth parthed ail gartrefi

Y cais
Diolch ichi am eich cais a ddaeth i law ar 26 Mis Ionawr 2021. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

a) Gohebiaeth rhwng Cyngor Gwynedd â'r Llywodraeth; a
b) nodiadau presennoldeb o drafodaethau rhwng Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru. mewn perthynas ag ail gartrefi yng Nghymru.

Ein hymateb

Yn dilyn fy asesiad cychwynnol, rwy'n amcangyfrif y byddai'n costio mwy na'r terfyn addas a nodwyd yn y Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (Terfyn a Ffioedd Addas) 2004 i ateb eich cais. Y terfyn addas a bennwyd ar gyfer y llywodraeth ganolog yw £600. Dyma amcangyfrif o'r hyn y byddai'n ei gostio os yw'n debygol o gymryd mwy na 24 awr i bennu a oes gennym yr wybodaeth, dod o hyd i'r wybodaeth, ei hadalw a thynnu'r rhannau perthnasol ohoni.

Er mwyn darparu'r wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdano, bydd angen cynnal ymchwiliad ac adolygiad llawn o holl gofnodion gwybodaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer unrhyw ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cymru gyfan a Chyngor Gwynedd dros y pum mlynedd diwethaf er mwyn adnabod unrhyw gyfeiriadau penodol, ymhlyg neu bosibl ar ail gartrefi (sydd ynddo'i hun yn derm eang). Bydd yr ymarferiad hwn yn cymryd llawer o amser.

Mae'n bosibl yr hoffech fireinio eich cais drwy ddatgan yn fwy penodol pa wybodaeth yr hoffech ei chael, gan gynnwys unrhyw ddyddiadau neu gyfnod amser sy'n berthnasol i'r

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

wybodaeth. Efallai yr hoffech nodi gwybodaeth allweddol am bynciau yr ydych yn ymgeisio amdano – er enghraifft gwybodaeth sy'n ymwneud â chynllunio, yr iaith Gymraeg, tai, neu gyllid llywodraeth leol ac ati – a/neu gyfyngu ar derfynau yr amserlen.

Os byddwch yn dewis mireinio eich cais fel hyn, bydd yn cael eu drin fel cais newydd.

Y camau nesaf

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir